

AI YN JEHOFAH Y MAE EICH HYDER?

Nodyn i'r siaradwr:

Helpwch y gynulleidfa i werthfawrogi'r doethineb o ddibynnu'n llwyr ar Jehofah, a dangoswch iddynt sut i arddangos llawn hyder ynddo Ef

Y MAE'R CENHEDLOEDD WEDI SEFYDLU EU HYDER YN Y MAN ANGHYWIR (4 mun.)

Y mae'r cenhedloedd yn rheoli gan ddibynnu ar ddoethineb a nerth eu hunain

Mae'r arweinwyr gwleidyddol yn ymgynnull â'i gilydd yn erbyn Jehofah a'i Frenin eneiog (Sal 2:1-3)

Mae'r arweinwyr crefyddol yn rhoi eu ffydd yng ngwleidyddiaeth yn hytrach na Theyrnas Dduw
[Darllenwch Eseia 28:14, 15]

Llochesau gwag yw eu cytundebau gwleidyddol (*ip*-1-E 292-294)

O ganlyniad y mae drygioni rhemp a diffyg heddwch ledled y byd (Esei 57:20, 21)

BLE MAE EICH HYDER CHI? (8 mun.)

Yn gwbl groes i'r byd twyllodrus hwn, y mae gweision Duw yn arddangos y rhinweddau canlynol:

Maent yn gytûn fel gwir addolwyr mewn byd sy'n rhanedig o ran gwleidyddiaeth, cymdeithas, a chrefydd (Sal 133:1)

Maent yn selog wrth bregethu'r newyddion da am Deyrnas Dduw—neges heddwch ac iachawdwriaeth (Mth 24:14)

Maent yn wynfydedig, neu'n hapus, gan adlewyrchu personoliaeth Duw (1Ti 1:11)

Maent yn ofalus i seilio eu hymddygiad a'u penderfyniadau ar egwyddorion Beiblaidd (Dia 3:5, 6)

Maent yn deg ac yn 'gwneud da i bawb' (Ga 6:10)

Y mae'r gwahaniaeth yn amlwg "rhwyng yr un sy'n gwasanaethu Duw a'r un nad yw" (Mal 3:18)

Beth sydd wrth wraidd y gwahaniaeth hwn? [Darllenwch Salmau 46:1-3]

Y mae pobl Jehofah yn dibynnu'n hyderus arno

Y maent yn gwybod bod Jehofah yn agos atynt ac yn fwy nerthol nag unrhyw elyn

Iddynt y mae Duw "yn gymorth parod mewn cyfyngder"

Hyd yn oed petai'r mynyddoedd yn disgyn i ganol y môr mewn trychineb naturiol, y mae gan bobl Jehofah hyder diysgog ynddo fel eu Lloches

Ai dyma'ch teimpladau chi?

Ydych chi'n wir ymddiried yn Jehofah?

FFYNHONNELL EICH HYDER (13 mun.)

Sut medrwn ni gynyddu'r hyder sydd gennym yn Jehofah? [Darllenwch Diarhebon 22:19]

Gwelwn effaith ddaionus y wybodaeth sydd o Dduw, fel yn Diarhebon 1:33 [Darllenwch]

Nid oes rhaid i'r rhai sy'n sefyll o blaid Jehofah gynhyrfu oherwydd ofn nac arswyd

Maent yn gwybod na all unrhyw beth chwalu'r diogelwch a ddaw o wrando ar Jehofah

Yng nghlwm yn ei waith o ailgodi waliau Jerwsalem, gwelwn esiampl ardderchog Nehemeia, fel un a ddibynnodd ar Jehofah

[Darllenwch Nehemeia 4:14 ac eglurwch yn bellach] (*w*98-E 10/15 17)

Ydych chi'n cofio Jehofah?

Mae'n angenrheidiol inni ei wneud bob dydd

Hefyd, mae'n rhaid inni wasanaethu Jehofah â'n "holl galon" (Col 3:23; *w*97-E 10/15 13-17)

Mae hyn yn golygu ymroi o'n hunain gan ddefnyddio ein holl egni i'r eithaf bosibl yn ein gwasanaeth i Jehofah

Dysgwn safbwynt Jehofah drwy gymharu dwy enghraifft

Fe wnaeth Mair, chwaer Lasarus, yr hyn y gallai drwy olchi traed Iesu ag olew drudfawr (Mc 14:3-9; In 12:3)

Rhoddodd gweddw dlawd "y cwbl oedd ganddi" yn nhrysorfa'r deml, sef "dau ddarn bychan o bres, gwerth chwarter ceiniog" (Mc 12:41-44)

Nid oedd Iesu yn cymharu Mair â'r weddw

Gwerthfawrogodd ef geiniogau'r weddw gymaint ag olew drudfawr Mair

Gan fod y ddwy wedi rhoi o'u gorau, roedd gwerth eu rhoddion yn gyfartal yng ngolwg Duw

Mae Jehofah yn haeddu ein gorau

Rhaid inni gadw ei orchmynion bob amser (Sal 119:93)

MEITHRIN HYDER HYD Y DIWEDD (5 mun.)

Mae Jehofah yn amyneddgar tuag at y cenhedloedd

Tystiolaeth o hyn yw bod cyhoeddwy'r selog y Deyrnas yn dal ati i ymbil ar arweinwyr y byd a'u dinasyddion, iddynt oll ymostwng i reolaeth Crist (Sal 2:10-12a)

Mae miliynau o Dystion Jehofah yn datgan neges Teyrnas Dduw yn selog mewn 239 o wledydd

Rydym yn pregethu yn llawen cyn i Fab Duw ddryllio'r cenhedloedd "fel llestr pridd" [**Darllenwch Salm 2:9**]

Wrth ichi brofi eich hunan yn selog am weithredoedd da, cadwch eich hyder yn Jehofah a phrofwch gyflawniad Salm 46:7-11 [**Darllenwch**]

[Cadwch yn agos at ddeunydd yr amlinelliad, a chadwch at yr amser ar gyfer pob rhan. Does dim rhaid darllen na thrafod pob testun, na thrafod pob is-bwynt chwaith. Gwelwch y llyfr *Ministry School*, tt. 52-55, 166-169]

Rhif 188-W—tudalen 2

I'W DRADDODI MEWN 30 MUNUD

© 2013 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania